

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd  
**Dyddiad:** 9 Mehefin 2023  
**Teitl:** Papur trafod ar gyfer Cyfarfodydd Aml-leoliad  
**Pwrpas yr adroddiad:** Ystyried y papur trafod

### Cefndir

Mae Canllawiau Statudol ac An-Statudol Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau Cymru yn nodi'r canlynol:

*15.54 Yn eistedd ochr yn ochr â gofynion craidd y "trefniadau cyfarfod" – y trefniadau a reolir yn gyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad – gall fod polisi cyfarfodydd aml-leoliad ehangach, a fydd hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol a nodir ym mharagraff 15.32 tra'n nodi gweithdrefnau manylach i sicrhau bod cyfarfodydd aml-leoliad yn gweithio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfrifol...*

*15.58 Bydd union gynnwys polisi yn cael ei gytuno ar lefel leol. Fodd bynnag, mae profiad awdurdodau perthnasol yn y gorffennol yn awgrymu y dylai gynnwys:*

- Sut i benderfynu pa gyfarfodydd y bydd darpariaeth gorfforol yn cael ei gwneud ar eu cyfer, ac a fydd yn cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy ddulliau anghysbell (o baragraff 15.6)*

**15.60 Efallai y bydd rhai awdurdodau perthnasol yn penderfynu y bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal drwy ddulliau o bell yn ddiodyn. Efallai y bydd awdurdodau perthnasol yn dymuno mabwysiadu dulliau gwahanol ar gyfer gwahanol gyrff, ac ar gyfer amgylchiadau gwahanol.**

Mae'r papur hwn wedi'i ddrafftio i hyrwyddo trafodaeth gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

### Camau Nesaf

I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried yr adroddiad, a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch cyfarfodydd o bell a hybrid.

**Argymhellion:** Ystyried cyflwyno ymarfer peilot mewn perthynas â dau bwyllgor am gyfnod o 18 mis, a'r argymhellion i'r Cyngor.

**Atodiadau:**

**Dogfennau cefndir:** Arweiniad Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru

**Enw:** Lowri Edwards

**Teitl y Swydd:**

Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau  
Democrataidd

**Dyddiad:**

11.05.2023